**Cyfarfod Llawn 2002 - 2003 (44)**

**Dydd Mercher, 22 Ionawr 2003**

# AGENDA

**Bydd y Sesiwn yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Cwestiynau i Jenny Randerson, y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg**
Cliciwch yma am y cwestiynau

**Eitem 2**
**Cwestiynau i Michael German, y Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor**
Cliciwch yma am y cwestiynau

**Eitem 3**
**Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros Lywodraeth Agored**
Cliciwch yma am y cwestiynau

**Eitem 4**
**Datganiad gan y Gweinidog dros yr amgylchedd ar Gwasanaethau Tren.**

**Eitem 5**
**Datganiad gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.**

**Eitem 6**
**Cynnig i gymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig Rhif 14: telerau ar gyfer ad-dalu awdurdodau lleol am gefnogi plant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches 1 Ebrill - 7 Tachwedd 2002**
**NDM1297 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

O dan S88B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 14) (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Ionawr 2003.

Cliciwch yma am y ddogfen.

**Eitem 7**
**Dadl ar gynnig i newid Cynllun Pensiwn 'Aelodau' Cynulliad Cenedlaethol Cymru dan**

**Reol Sefydlog 3.1**
**NDM1298 John Marek (Wrecsam)**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Adran 18 (1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 3.1 yn penderfynu mabwysiadu Rheolau Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sydd wedi eu hadolygu a'u gosod ar 7 Ionawr 2003, ac yn disodli'r rheolau a nodwyd o dan Gyfarwyddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau'r Cynulliad) (Cynllun Pensiwn) 1999 fel y'u diwygiwyd.

Cliciwch yma am y ddogfen.

**Eitem 8**
**Trafodaeth ar Gwahardd ysmygu mewn mannau cyhoeddus**
**NDM1270 Alun Pugh (Gorllewin Clwyd)**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)**
**David Melding (Canol De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 31.9 yn galw ar Lywodraeth y DU i gyflwyno Mesur cyhoeddus yn gysylltiedig â Chymru a fyddai'n darparu bod y Cynulliad, drwy offeryn statudol, yn gallu gwahardd pobl rhag ysmygu tybaco mewn adeiladau cyhoeddus sydd wedi'u nodi yn yr offeryn hwnnw. Pwrpas Mesur o'r fath ac unrhyw offeryn statudol a fyddai'n cael ei wneud o dan y Mesur fyddai sicrhau bod gweithwyr a'r cyhoedd yn dod i lai o gysylltiad â mwg tybaco, y profwyd ei fod yn beryglus iawn i fywydau pobl.

Asesiad o Gostau, Manteision a goblygiadau eraill y cynnig uchod a gyflwynwyd gan Alun Pugh AC ar 15 Ionawr 2003

Mae tua 7,000 o bobl yn marw o afiechydon ysmygu yng Nghymru bob blwyddyn. Mae'n costio oddeutu £30 miliwn y flwyddyn i roi triniaeth i bobl ag afiechydon ysmygu. Pe bai'r mesur hwn yn dod yn ddeddf, mae llawer o waith ymchwil yn profi y byddai lefelau ysmygu yn disgyn ac y byddai costau rhoi triniaeth hefyd yn disgyn, er ei bod yn anodd cyfrifo'r swm hwnnw.

Telir trethi ysmygu i Lywodraeth y DU ac nid i'r Cynulliad. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn talu pensiynau. Yn ogystal â'r arian sy'n deillio o drethu, mae'r Trysorlys yn arbed swm sylweddol mewn taliadau pensiwn, a hynny gan fod 100,000 o ddinasyddion y DU yn marw cyn eu hamser bob blwyddyn yn sgil ysmygu. Ar ben hynny, gan fod mwyafrif yr ysmygwyr yn hanu o rannau tlotaf y gymdeithas, mae lefel anghymarus o uchel yn hawlio budd-daliadau. Mae'r Trysorlys yn elwa'n fawr ar y ffaith eu bod yn marw'n gynnar. Nid wyf yn gwybod am unrhyw waith ymchwil sy'n cyfrifo'r manylion hyn.

**Eitem 9**
**Dadl fer - NDM1300 Dafydd Wigley (Caernarfon); Effaith bosibl yr Argyfwng**

Rhyngwladol ar Wasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 28 Ionawr 2003**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**